"Os bydd gennych gariad tuag at eich gilydd, wrth hynny bydd pawb yn gwybod mai disgyblion i mi ydych." ***(Ioan 13: 35)***

"*Cariad anfeidrol yng nghyfathrachau bob dydd dynion â'i gilydd*." Darllenwch y frawddeg hon ddwywaith neu dair" Dodwch hi'n ddiogel yn eich cof. Disgrifiad o Gristnogaeth ydyw gan un o ysgolheigion mawr yr Almaen.

Y mae pobl weithiau'n siomedig nad yw Cristnogaeth yn rhoi iddynt set o reolau a gorchmynion taclus i lunio a llywio bywyd. Nid yw yn gwneud y fath beth! Temtiwyd pobl yn yr eglwys i wneud hynny lawer gwaith, ond gofid a methiant a ddaeth o hynny. Un ddeddf fawr yn unig a roes Iesu inni - "***... carwch eich gilydd"*** **(Ioan 13: 34)**. Wedi bod yn hir yn yr anialwch 'rydym bellach yn dechrau dod i weld na ddichon dim heb blygu yn llwyr i'r gorchymyn hwn. Ni ddichon dim lles na budd byth o elyniaeth bersonol na chenedlaethol.

Y gwirionedd mwyaf yn y byd heddiw, a gwirionedd yw a ddatguddiwyd gan ein Harglwydd Iesu Grist, yw mai cariad ydyw Duw. Celwydd ydyw popeth a leferir, a bregethir ac a gredir sydd yn groes i hyn.

Beth am dy fywyd di? A oes ynddo rhywbeth sydd yn groes i hyn?

Beth am Eglwys Minny Street? A oes ynddo rhywbeth sydd yn groes i hyn?

Fel aelodau o Eglwys Iesu Grist yr unig reidrwydd mawr sydd arnom yw caru!

Dyma'r orfodaeth fawr sydd arnom oll. Duw â'n cynorthwyo!

Gweddïwn:

Arglwydd Iesu Grist, dy gariad di dy hun achosodd i ti gael dy hoelio i'r groes. Grist ein Brawd, ein pechod ni a'th hoeliodd di i'r groes, ond dy gariad di a'th adawodd yno. Dy gariad di ofynnodd am faddeuant i'th lofruddwyr. Dyro i ni dy gymorth, Arglwydd, i dderbyn mwy o'th gariad er mwyn i ni garu'n brodyr a'n chwiorydd yn nheulu'r Ffydd a'n cymydog yn y byd. Par i'th faddeuant di ein galluogi i faddau i eraill, er mwyn dy ras. Amen

Arglwydd Iesu, clodforwn di am dy gariad gwaredigol ac am y cyfan a wnaethost drosom. Wrth i ni blygu mewn edifeirwch wrth y groes cydnabyddwn yn ddiolchgar ein dyled i ti. Canys eiddom ni y pechod a ddygaist, eiddom ni y pris a dalaist, eiddom ni yr iachawdwriaeth a enillaist. Arglwydd Iesu, derbyn ein diolchgarwch a gwna ni'n fwy teilwng o'th gariad di; er mwyn dy gariad. Amen.

Hollalluog a thragwyddol Dduw, addolwn di mewn llawenydd. A llawenhawn fod yr hwn a fu'n groeshoeliedig, marw ac wedi ei gladdu, yn fyw byth mwy, ein Harglwydd sy'n atgyfodedig ac yn teyrnasu. Wrth i ni ddathlu ei fuddugoliaeth, gweddïwn am i'w lawenydd drigo yn ein calonnau ac i'n bywydau ddatgan ei glod. Iddo ef y bo'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen (cyfieithiad o waith Frank Colquhoun, 1909-1997)

(gweddïau allan o *Yr Wythnos Honno. Myfyrdodau ar gyfer Yr Wythnos Fawr a'r Pasg* gan Ivor Thomas Rees; Cyhoeddiadau'r Gair 2011)